Poeni am arian?

Mae cymorth ar gael yn Abertawe

Tri cham i ddod o hyd i opsiynau a lleoedd i gael help

Cam 1: Beth yw'r broblem?

Does gen i ddim arian yn sydyn

- Colli swydd neu lai o oriau
- Arian wedi'i atal
- Wedi colli arian
- Traul annisgwyl
- Trychineb (e.e. llifogydd neu dân)
- Perthynas wedi chwalu
- Sancsiwn (gweler opsiwn 5)

Gweler opsiynau 1 2 6

Does gen i ddim ddigon o arian

- Rwy'n penderfynu rhwng bwyd, tanwydd, rhent neu gredyd symudol
- Incwm isel
- Contract dim oriau
- Tâl Salwch Statudol yn rhy isel
- Wynebu colli swydd
- Dwi ddim yn siŵr os ydw i'n gymwys am gymorth
- Newid mewn amgylchiadau

Gweler opsiwn 2

Mae gennyf ddyled

- Rhent neu Dreth y Cyngor
- Nwy a thrydan
- Benthyciadau diwrnod cyflog
- Mae arnaf arian i ffrindiau neu deulu
- Ad-daliadau budd-daliadau

Gweler opsiwn 3

Rwy'n aros am daliad neu flaenswm budd-dal

- Cais newydd am fudd-dal
- Mae fy nhaliad wedi'i oedi
- Rwy'n aros am benderfyniad

Gweler opsiynau 1 4

Cam 2: Beth yw rhai o'ch opsiynau?

1 Cynlluniau Cymorth Llywodraeth Cymru a'r Cyngor

Gall Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru gynnig Taliad Cymorth mewn Argyfwng (EAP) i helpu gydag eitemau hanfodol, fel bwyd, nwy, trydan neu ddillad os ydych yn profi caledi ariannol sylweddol, neu os ydych mewn argyfwng ac mae angen cymorth ariannol arnoch ar unwaith. Gellir talu'r grant hwn i'ch cyfrif banc (BACS) neu gellir ei ddyfarnu fel taleb neges destun a anfonir at eich ffôn symudol (taleb PayPoint).

Gall pobl ar incwm isel hefyd fod yn gymwys ar gyfer Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth y Cyngor neu Daliad Tai Dewisol gan Gyngor Abertawe. Bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau presennol ac a ydych yn talu rhent a/neu Dreth y Cyngor neu beidio - am ragor o fanylion gweler 'Cymorth Pellach gan y Cyngor' yng Ngham 3.

2 Cynyddu'ch Incwm i'r Eithaf

Gall unrhyw un sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol gael gwiriad budd-daliadau a siarad â chynghorydd i gael cyngor cyfrinachol am ddim. Gall gwiriad budd-daliadau sicrhau eich bod yn derbyn yr holl arian y mae gennych hawl iddo, yn enwedig os yw'ch amgylchiadau wedi newid yn ddiweddar. Gallai siarad â chynghorydd hefyd eich helpu i ddod o hyd i fargeinion rhatach ar bethau fel nwy a thrydan a gwneud yn siŵr nad ydych yn colli'r cyfle i gael pethau fel prydau ysgol am ddim.

3 Cyngor ar Ddyledion

Gall unrhyw un fynd i ddyled. Gall cyngor a chymorth am ddim eich helpu i ddod o hyd i ffyrdd o reoli'ch dyledion a lleihau faint rydych yn ei dalu bob mis.

4 Blaenswm Budd-daliadau

Os ydych wedi gwneud hawliad newydd am fudd-dal ac rydych mewn caledi ariannol wrth aros am eich taliad cyntaf, efallai y gallwch gael blaenswm i fforddio pethau fel rhent neu fwyd. Mae'n bwysig cael cyngor cyn cymryd blaenswm. Rhaid talu blaendaliadau budd-daliadau yn ôl, a chymerir yr arian o'ch taliadau budd-dal yn y dyfodol (benthyciad).

5 Taliad Caledi

Os ydych wedi cael sancsiwn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, efallai y gallwch ofyn am daliad caledi gan y Ganolfan Waith. Nid yw taliadau caledi bob amser yn cael eu talu ar unwaith, ac nid ydynt ar gael i bawb. Mae angen talu taliadau caledi Credyd Cynhwysol yn ôl (benthyciad), ond does dim rhaid gwneud hyn ar gyfer taliadau caledi Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (nid benthyciad yw'r rhain).

6 Herio Penderfyniad

Gallwch herio penderfyniad budd-dal os yw'ch budd-dal wedi'i atal/ei sancsiynu/ei leihau/ei wrthod neu os ydych wedi cael eich gordalu. Mae angen herio'r rhan fwyaf o benderfyniadau budd-daliadau o fewn mis.

Cam 3: Ble gallaf gael hyd i help? Am gymorth cyfrinachol am ddim.

Cronfa Cymorth Dewisol

Cael gwybod a ydych yn gymwys a gwneud cais am y Gronfa Cymorth Dewisol
0800 859 5924 (rhadffôn)
www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf/sut-i-wneud-cais

CYNGOR AR BOPETH

Cyngor ar Bopeth, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot
Cyngor ar fudd-daliadau, dyled, tai a mwy
0808 278 7926 (rhadffôn)
help@citizensadvicesnpt.org.uk
www.citizensadvicesnpt.org.uk
Help gydag opsiynau 1 2 3 4 5 6

CLINIG Y GYFRAITH PRIFYSGOL ABERTAWE

Yn cynnig cyngor am broblemau cyfreithiol, budd-daliadau, cyflogaeth a mwy
lawclinic@swansea.ac.uk
www.swansea.ac.uk/cy/y-gyfraith/clinigygyfraith
Help gydag opsiynau 4 6

CYNGOR ABERTAWE

Cymorth Cyflogadwyedd Abertawe'n Gweithio
Help i ddod o hyd i waith, gyda mynediad at gyngor ar hawliau lles, dyled a chyllidebu
01792 578 632
SwanseaWorking@abertawe.gov.uk
Help gydag opsiynau 1 2 3 4 5 6

CYMORTH PELLACH GAN Y CYNGOR

Budd-dal Tai a Thaliadau Tai Dewisol
01792 635 353 | www.abertawe.gov.uk/ttd
budd-daliadau@abertawe.gov.uk

Gostyngiad Treth y Cyngor
01792 635382 | TrethyCyngor@abertawe.gov.uk

Prydau Ysgol Am Ddim
freschoolmeals@swansea.gov.uk
www.abertawe.gov.uk/prydauysgolamddim

Grantiau Gwisg Ysgol
SchoolUniformGrant@abertawe.gov.uk
www.abertawe.gov.uk/grantgwisgysgol

Uned Cefnogi Tenantiaid
01792 774360 | uct@abertawe.gov.uk
www.abertawe.gov.uk/uct

LLINELL GYMORTH AMLIEITHOG CYMRU

Gwybodaeth am hawliau lles, cyngor ar dai a chyflogaeth
0300 222 5720 | 07537 432 416 (neges destun)
www.bame.cymru
Help gydag opsiynau 1 2 4 5

SHELTER CYMRU

Cyngor annibynnol sy'n gysylltiedig â thai gan gynnwys cymorth i ddelio â morgeisi ac ôl-ddyledion rhent
01792 469 400
swansea@sheltercymru.org.uk
sheltercymru.org.uk/cy
Help gydag opsiwn 3

CRISTNOGION YN ERBYN TLODI

Elusen cwnsela ar ddyledion
0800 328 0006 (rhadffôn)
www.capuk.org
Help gydag opsiwn 3

Cymorth Arall

Cymorth i Fenywod Abertawe
Cymorth i fenywod a phlant sy'n profi cam-drin domestig cymorth dyled
01792 644 683
www.swanseawomensaid.com

Mind Abertawe
Cymorth a chyngor i rymuso unrhyw un sy'n profi problem iechyd meddwl
01792 642 999
admin@swanseamind.org.uk
www.swanseamind.org.uk

Talebau Cychwyn Iach
I helpu i brynu ffrwythau, llysiau a llaeth os ydych ar incwm isel, yn feichiog neu os oes gennych blentyn dan 4 oed.
(Ar gael i'r rheini nad oes ganddynt fynediad at arian cyhoeddus (NRPF))
Cyflwynwch gais ar-lein:
www.healthystart.nhs.uk

Turn2Us
Gwybodaeth a chymorth ariannol
0808 802 2000 (rhadffôn)
www.turn2us.org.uk
benefits-calculator-2.turn2us.org.uk

Rhagor o Gyngor a Chefnogaeth

Step Change
Cyngor am ddim ar ddyledion a rheoli arian
0800 138 1111 | www.stepchange.org

Money Helper
Cyngor i helpu i wella'ch sefyllfa ariannol
0800 138 7777 (rhadffôn)
www.moneyhelper.org.uk

Hope in Swansea
Am ragor o wasanaethau cymorth yn Abertawe, lawrlwythwch yr ap gan ddefnyddio'r côd QR neu ewch i:
www.hopeinswansea.org.uk

National Debt Line
Cyngor annibynnol am ddim ar ddyledion dros y ffôn ac ar-lein
0808 808 4000
www.nationaldebtline.org

Debt Advice Foundation
Cymorth a chyngor i unrhyw un sy'n poeni am fenthyciadau, credyd a dyled
0800 043 4050
www.debtadvicefoundation.org

Efallai y bydd gan Gymdeithasau Tai/Gyngor Abertawe gynghorwyr sydd ar gael i'w tenantiaid hefyd

Ar gyfer Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches a Mudwyr heb Fynediad at Arian Cyhoeddus (NRPF)

The Unity Project
Cymorth i gael gwared ar yr amod NRPF os yw'n berthnasol a chymorth arall
www.unity-project.org.uk

Project 17
Cyngor ar opsiynau tai ac ariannol i deuluoedd â phlant sy'n wynebu tlodi difrifol/digartrefedd oherwydd bod NRPF yn berthnasol iddynt
07963 509 044 | www.project17.org.uk

Cymorth i Geiswyr Lloches Abertawe
Yn gweithio gyda sefydliadau eraill i ddarparu cymorth brys
www.sass.cymru

Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid
Gwasanaeth Cymorth Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid yn Hwb Noddfa EYST, sy'n cynnig cyngor ar y broses loches, y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches (NASS), budd-daliadau, arian a thai
07394 923 317 neu 07512 792 182
info@eyst.org.uk

Ynglŷn â'r daflen

Mae'r daflen hon yn seiliedig ar ddysgu o brosiect A Menu for Change yr Alban ac fe'i datblygwyd gyda chymorth gan y sefydliadau isod. Gallwch weld y taflenni 'Worrying About Money' ar-lein yn www.foodaidnetwork.org.uk/cash-first-leaflets. Diweddarwyd yr wybodaeth ar y daflen hon ddiwethaf ar: 23/11/21

Adborth? Beth oedd yn ddefnyddiol i chi am y canllaw hwn? www.bit.ly/moneyadvicefeedback